



YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD

PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP

LLANGYNWYD, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW

POST.YGGLLANGYNWYD@BRIDGEND.GOV.UK

WWW.YGGLLANGYNWYD.CYMRU

@YGGLLANGYNWYD

01656 815700

01656 815701

Athro/awes Her Sgiliau

**Llaw amser dros dro tan Awst 2022 gyda'r posibilrwydd cryf o fod yn barhaol wedi hynny
Graddfa Gyflog Athrawon
ar gyfer Ionawr 2022**

Dyma gyfle arbennig i ymuno ag ysgol flaengar a llwyddiannus sydd wedi'i chategoreiddio'n ysgol werdd. Mae gennym dîm brwdfrydig a thalentog o staff sydd yn ymroi'n llwyr i gynnal y safonau uchaf o ddysgu ac addysgu a chyflawniad ein dysgwyr. Mae'r ysgol ar drothwy cyfnod cyffrous wrth iddi baratoi a chyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru ac mewn ymateb i'r twf am addysg Gymraeg o fewn sir Pen-y-bont ar Ogwr, rydym yn chwilio am berson blaengar, brwdfrydig, ymroddgar ac egniol sydd â'r gallu i addysgu o fewn yr adran Her Sgiliau, hyd at Safon Uwch a'r posibilrwydd i addysgu yn eich cymhwyster hyfforddi. Mae'r adran hon yn un llwyddiannus, sydd yn meddu ac yn cynnal y safonau uchaf o gyflawniad a sydd yn addysgu pob dysgwr o flwyddyn 7 hyd at Safon Uwch. Mae'r adran yn rhan o'r Maes Iechyd a Lles, ynghyd â'r adrannau Addysg Gorfforol a Galwedigaethol, wrth iddynt weithio â'i gilydd i ddatblygu cwricwlwm newydd yr ysgol. Mae gan yr adran dîm llwyddiannus a phrofiadol o staff, sydd yn cefnogi'i gilydd ac yn anelu am y gorau o'n dysgwyr a thanio'u brwdfrydedd yn y pwnc a datblygu'r medrau angenrheidiol ymhlith ein dysgwyr ar gyfer eu taith nesaf ôl ysgol.

Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yw unig ysgol gyfun Gymraeg sir Pen-y-bont ar Ogwr ac o ganlyniad i'n perfformiad da, rydym wedi ei sefydlu fel ysgol sydd â safonau uchel a gweledigaeth glir. Lleolir yr ysgol i'r de o bentref hanesyddol Llangynwyd, llai na 10 munud o gyffordd 36 yr M4. Mae iddi gysylltiadau rhwydd a pharod o Abertawe i'r gorllewin (llai na 30 munud) a Chaerdydd i'r dwyrain (25 munud). Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ysgolion uwchradd eraill wrth ddatblygu ein cwricwlwm newydd, ynghyd â bod yn rhan o bartneriaeth gydag Ysgol Gyfun Gwynllyw ym Mhont-y-pŵl a thrwy hyn oll, cynigir amryw o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i'n staff.

Mae hwn yn gyfle arbennig i gychwyn, neu ddatblygu gyrfa a chymryd rhan blaenllaw yn natblygiad yr ysgol gyfan gan fodloni blaenoriaethau cenedlaethol.

Disgwylir i berson sy'n ymgeisio ar gyfer y swydd fodloni'r gofynion isod:

- meddu ar gymwysterau a/neu brofiad priodol ar gyfer addysgu mewn ysgol uwchradd;
- meddu ar sgiliau cyfathrebu da iawn yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- meddu ar sgiliau TGCh da iawn;
- gallu gweithio fel rhan o dîm;
- dangos ymroddiad i gefnogi datblygiad ieithyddol a diwylliannol dysgwyr drwy weithgareddau allgyrsiol;
- ymrwymo'n llawn i gynllun datblygiad proffesiynol parhaus yr ysgol ac ymgymryd â gwaith ymchwil personol fel rhan o'r safonau proffesiynol newydd.

Os hoffech ymuno â ni yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, lawr lwythwch y ffurflen gais oddi ar wefan E-teach ac os ydych am sgwrs anffurfiol, croeso i chi gysylltu â'r ysgol i gael siarad ag aelod o'r Uwch Dîm Arwain.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: **Dydd Mercher, 10 Tachwedd 2021 am 12pm.**

This is an advertisement for the post of a full-time Skills Challenge teacher in a Welsh Medium School. The ability to communicate fluently in Welsh is essential

D Y S G . . . D A W N . . . D Y F O D O L . . .

